CYNGOR TREF LLANBEDR PONT STEFFAN

COFNODION CYFARFOD CYNLLUNIAU LLE CEREDIGION
Nos Iau 7 Mehefin 2018, Swyddfa CAVO Llanbedr Pont Steffan @ 7pm

1. CROESO'R CADEIRYDD

Estynnodd y Cadeirydd y Maer y Cyngh. Ann Morgan, groeso cynnes i bawb a oedd yn bresennol.

2. YN BRESENNOL: Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan: Y Maer Y Cyngh. Ann Bowen Morgan; y Dirprwy-Faer Y Cyngh. Robert Phillips; Y Cyngh. Rhys Bebb-Jones; Y Cyngh. Dinah Mulholland; Y Cyngh. Selwyn Walters; Eleri Thomas (Clerc).
Y Cynghorydd Sirol Ivor Williams.
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS); Geraint Coles
Siambr Fasnach Llanbedr Pont Steffan: Sian Davies (Cadeirydd); Sarah Ward; Amanda;
CAVO: Hazel Lubran; Teleri Davies.

3. YMDDIHEURIADAU: derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cyngh. Hag Harris a Jeremy Smith (PCYDDS).

4. Pwrpas y Cyfarfod: Dywedodd y Cadeirydd mai pwrpas y cyfarfod oedd sefydlu petai'r Cyngor Tref yn cymryd rhan yn y "Cynlluniau Lle Ceredigion", mewn partneriaeth â sefydliadau. Yn ôl Cyngor Sir Ceredigion, "Mae Cynllun Lle yn gyfle i gymuned i ddod at ei gilydd i siarad am beth sydd angen digwydd i wneud y lle y gorau y gall fod. Dylai Cynllun Lle wneud i bethau ddigwydd yn hytrach na chyfyngu ar beth sy'n digwydd". Mae gan Lywodraeth Cymru uchelgeisiau newydd ar gyfer cynllunio cymunedol yng Nghymru am fod yna gydnabyddiaeth bod angen i'r system gynllunio yng Nghymru adfer a gwella'i ffocws cymunedol. I fod yn gwbl ddilys dylai Cynlluniau Lle gael eu harwain a'u perchnogi gan Gynghorau Tref a Chymuned yn ogystal â'r gymuned. Mae ymgystylliad rhwng yr Awdurod Lleol â'r gymuned yn holl bwysig.

5. Pwy ddylai fod yn rhan o'r Prosiect?

Sefydlir Pwyllgor Llywio â chynrychiolwyr o sefydliadau lleol ee Ysgol, PCYDDS, Transition Llambed,Siambr Fasnach. Ystyriwyd manteision i'r gymuned; gallai Cynlluniau lle ddylanwadu ar y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) i gwrdd ag anghenion y gymuned a gwella mewnbwn i benderfyniadau

cynllunio lleol.
Pobl Lleol sy'n gyfrifol am symud materion yn eu blaen parthed y Cynlluniau Lle.

6. SYNIADAU

Cytunwyd i adeiladu ar yr hyn a oedd yn bodoli, i ymwneud â gwelliannau parthed y Stryd Fawr a bod y dref yn gyrchfan.

GELLIR:

6.1 Llunio holiadur, mewn ymgais i ddenu pobl i'r dref, ar gynnig o fewn yr Amgueddfa a lleoliadau canolog pellach. Cytunwyd bod pobl busnes yn llunio'r holiadur; gallai cwestiynau gynnwys, iechyd / addysg; yr hyn y mae pobl yn ei werthfawrogi fwyaf yn y dref a'r hyn y dymunent eu newid.
Nodwyd bod nifer fawr o bobl yn ymweld â Llanbedr Pont Steffan yn ystod y Diwrnod Graddio a Gŵyl Fwyd Llanbedr Pont Steffan. Gellid cynnal sgyrsiau ag unigolion a cheisir gwybodaeth dan law'r Clonc a'r Grapevine.
Gallai'r Holiadur ymddangos ar lwyfannau cymdeithasol megis Fb. Gellid darparu Bwrdd Gwyn a Nodiadau Post-It yn ystod digwyddiadau i alluogi unigolion i gyflwyno syniadau ee Marchnad y Bobl, Sainsbury a'r Co-op. Gellid cysylltu â disgyblion ysgol a myfyrwyr sydd wedi dewis aros yn Llanbedr Pont Steffan, am ymatebion.

6.2 Rhoi anogaeth a chymorth i'r rheini sy'n dymuno sefydlu busnes yn y dref a gweld twf yn eu busnes. Arddangosir ffotograffau o bosibl o Lanbedr Pont Steffan mewn lleoliadau allweddol.

6.3 Gwneud ymdrechion i ostwng cyfraddau busnes a cheisio cyngor gan Lywodraeth Cymru gyda'r bwriad o ddenu buddsoddiad.
Cytunwyd i lunio rhestr o eiddo masnachol, a oedd yn wag ac ar gynnig ar gyfer pobl busnes, sy'n ceisio lle i'w rhentu. Ar hyn o bryd gall Asiantau Tai ddarparu gwybodaeth am yr hyn sydd ar gael.

7. CYLLID

Dywedwyd mai heb gyllid "Grŵp Syniadau yn unig" oedd y pwyllgor presennol. Roedd angen unigolion i arwain, er mwyn hwyluso'r weledigaeth ar gyfer Llanbedr Pont Steffan am y 5-10 mlynedd nesaf, ee Ali Fwa-Nodi - byddai angen tystiolaeth o angen. Cytunwyd i lunio rhestr o syniadau ac yna ceisio cyllid. Byddai'r Cynllun Lle yn Gynllun Busnes. Hefyd i nodi prosiectau, y gellid eu cyflwyno heb adnoddau. Penderfynwyd dechrau â syniadau cost isel / dim cost cyn rhoi trefn ar y Cynllun. Byddai rhai unigolion / grwpiau yn

gyfrifol am geiso cyllid. Gellid dyfeisio cynllun mewn perthynas â'r busnesau, y dymunir eu denu i'r dref ee dillad dynion, esgidiau.

Dywedodd cynrychiolwyr CAVO a oedd yn bresennol eu bod yn barod i gefnogi'r Pwyllgor Cynlluniau Lle Llambed; maent yn cydweithio â Mr Alan Haird Cyngor Sir Ceredigion i ddatblygu Cynlluniau Lle ledled Ceredigion.

8. FFORDD YMLAEN

8.1 **Sefydlir Grŵp Llywio** - tîm catalydd gan geisio arbenigedd mewn rhai meysydd ee iechyd.

8.2 **Gosodir Grŵp Facebook mewn lle -Caru Llambed – Love Lampeter -** gan ddefnyddio holiaduron syml/ysgafn a rhyngweithiol gan geisio ffyrdd arloesol o wella a hyrwyddo'r dref. Y Cynghorydd Rob Phillips a Sarah Ward i ysgwyddo cyfrifoldeb.

8.3 **CAVO i gynnig help llaw** megis adroddiadau, ceisiadau ac ati.

8.4 **Siambr Fasnach i lunio rhestr o eiddo busnes**, sydd ar gael a throsglwyddo i Fb. Angen diweddaru'r rhestr yn rheolaidd.

8.5 **Bwrdd gwyn - Grŵp Gorchwyl a** Gorffen i geisio lleoedd a dyfeisio cwestiynau ee Sioe Llanbedr Pont Steffan, diwrnod graddio, stondin Cyngor Tref yn yr Ŵyl Fwyd.

9. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF:

Dydd Mawrth 3 Gorffennaf 2018 am 6pm Swyddfeydd CAVO.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.50pm.

LAMPETER TOWN COUNCIL

MINUTES OF THE CEREDIGION PLACE PLANS' MEETING

Thursday 7th June 2018 AT THE CAVO Offices Lampeter @7pm

1. **Chairperson's Welcome**
   The Chairperson Mayor Cllr Ann Morgan extended a warm welcome to all present.

2. **PRESENT: Lampeter Town Council:** Mayor Cllr Ann Bowen Morgan; Deputy-Mayor Cllr Robert Phillips; Cllr Rhys Bebb-Jones; Cllr Dinah Mulholland; Cllr Selwyn Walters; Eleri Thomas (Clerk).
   County Cllr Ivor Williams.
   University of Wales Trinity Saint David; Geraint Coles.

Lampeter Chamber of Trade: Sian Davies (Chairperson); Sarah Ward; Amanda.
CAVO: Hazel Lubran; Teleri Davies.

3. **APOLOGIES**: for absence were received from Cllr Hag Harris and Jeremy Smith (UWTSD)

4. **Purpose of the Meeting:** The Chair stated that the purpose of the meeting was to establish whether the Town Council would take part in the Place Plans' scheme, in partnership with other organisations. According to Ceredigion County Council, "A Place/Action Plan is an opportunity for a community to come together and talk about what needs to happen to make a place the best it can be….. A Place Plan should make things happen not limit things happening"
   Welsh Government (WG) has new ambitions for community planning in Wales as there is recognition that the planning system in Wales needs to regain and enhance its community focus. To be truly authentic Place Plans should be led and owned by Town and Community Councils in partnership with the Community. Engagement between the Local Authority and Community is paramount.

5. **Who should be part of the Project?** - A Steering Committee would be set up with representatives from local organisations eg School, UWTSD, Transition Lambed, Chamber of Trade. Benefits to the community were considered; Place Plans could influence the Local Development Plan (LDP) to meet community needs and improve input into local planning decisions.
   Place Plans were driven by local people.

6. **IDEAS**
   It was agreed to build on, what was presently in place, to advance the High Street and to make Lampeter a destination.
   - **6.1** **A questionnaire could be compiled**, in a bid to attract people to the town and could be deposited within the Museum and other central locations. It was agreed for business people to compile the questionnaire; questions could encompass, health/education; what people valued most within the town & what would they change.
     It was noted that a large number of people visited Lampeter during Graduation Day and the Lampeter Food Festival. Conversations could take place and information sought via the *Clonc* and the *Grapevine.*
     The Questionnaire could appear on social platforms via Fb.
     Notice/Board /Whiteboard & Post-It notes could be made available at events for people to submit ideas & at the People's Market, Sainsbury's and the Co-op. School pupils and students, who remain in Lampeter could be approached for responses.

6.2 **Encouragement and support could be given to those who wish to set up their own business** and to see a growth in their business. Photographs of Lampeter could be displayed at key locations.

6.3 **Endeavours could be made** to reduce business rates and advice sought from the WG. The priority would be to attract investment. It was agreed to compile a list of commercial properties, which were empty and which could be provided for business people, seeking a place to rent. Currently Estate Agents can provide information on what is available.

7. FUNDING

It was stated that without funds the committee would be "Just an Ideas' Group" A driver was required to facilitate the vision for Lampeter for the next 5-10 years eg a Bowling Alley – evidence of need would be required. It was agreed to compile a list of ideas and then seek funding. The Place Plan would be a Business Plan. Also to identify projects, which could be introduced without resources. Start with low cost/ no cost ideas and place the Plan in order. Certain individuals/ groups would be responsible for sourcing funds. A plan could be devised in relation to the businesses, which people wished to attract Eg menswear, shoes.

CAVO will support the Lampeter Place Plans' Committee; they are involved with Mr Alan Haird Ceredigion County Council in developing Place Plans throughout Ceredigion.

8. WAY AHEAD

8.1 **A Steering Group would be set up** - a catalyst team and expertise drawn in eg health.

8.2 **A Facebook Group would be established using simple infographics Caru Llambed – Love Lampeter–**questionnaire not to be too serious and interactive; ask for innovative ways to improve & promote the town. Cllr Rob Phillips and Sarah Ward to assume responsibility.

8.3 **CAVO to offer help in** the way of reports, bids etc.

8.4 **Chamber of Trade to compile a list of business properties**, which were available and transfer onto Fb. List would have to be updated at regular intervals.

8.5 **Whiteboard – Task and Finish Group** to find places and devise questions eg Lampeter Show, Graduation Day, Town Council stand at the Food Festival

9. Date of Next Meeting: Tuesday 3rd July 2018 at 6pm CAVO Offices.
The meeting was adjourned at 8.50pm.

==========(ARWYDDWYD/ DYDDIAD/ SIGNED/DATE)